# Cynllun Busnes 2024/25




Mae Trafnidiaeth Cymru yn eiddo i **Lywodraeth Cymru**
Transport for Wales is owned by the **Welsh Government**

TRAFNIDIAETH CYMRU
TRANSPORT FOR WALES

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Ein Cynllun Busnes | 3 |
| Ein trawsnewidiad i TrC 2.0 | 5 |
| Ein blaenoriaethau yn 2024/25 | 7 |
| Mesur ein perfformiad | 13 |
| Cyflawni ein cylch gwaith | 14 |
| Cynllun | 15 |
| Partner | 22 |
| Cwsmeriaid a diwylliant | 25 |
| Adeiladu a chynnal | 31 |
| Cyflawni ar gyfer cwsmeriaid | 35 |
| Gwerth am arian | 38 |
| Gwasanaethau galluogi | 41 |

# Ein Cynllun Busnes


Mae ein Cynllun Busnes 2024/25 yn nodi'r prif weithgareddau y byddwn yn eu cyflawni rhwng mis Ebrill 2024 a mis Mawrth 2025. Mae popeth a wnawn wedi'i gynllunio i gefnogi ac annog pobl i deithio'n fwy cynaliadwy. Rydym am weld mwy o bobl yn defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus. Rydym am weld mwy o bobl yn cerdded, yn olwynio ac yn beicio yn lle gyrru.

Ein nod yw creu, datblygu a gwella'n barhaus system drafnidiaeth integredig ar gyfer Cymru gyda'r cwsmer yn ganolog iddi. Rydym yn gweithio mewn partneriaeth agos â Llywodraeth Cymru, yr awdurdodau lleol a Chyd-bwyllgorau Corfforedig. Mae ein cynllun busnes blynyddol yn nodi sut byddwn yn gweithio tuag at y nod hwn yn 2024/25.

Mae'r graffigyn isod yn nodi sut mae'r ddogfen hon yn perthyn i'n fframwaith cynllunio cyffredinol .

Mae ein gweithgareddau ar gyfer y 12 mis nesaf wedi cael eu datblygu a'u cytuno â Llywodraeth Cymru.

Dylid darllen y cynllun hwn ochr yn ochr â'n Strategaeth Gorfforaethol, 2021-26, sy'n rhoi manylion ein fframwaith cynllunio busnes, yn nodi ein blaenoriaethau a sut byddwn yn gweithio tuag at wireddu ein gweledigaeth.


Llywodraeth Cymru
Llwybr Newydd: strategaeth drafnidiaeth Cymru 2021 a'r cynllun cyflawni cenedlaethol ar gyfer trafnidiaeth
20
Blwyddyn
Rhaglen lywodraethu pum mlynedd
Llythyr cylch gwaith pum mlynedd
Llesiant cenedlaethau'r dyfodol
Trafnidiaeth Cymru
Blwyddyn
0
Blwyddyn
1
Blwyddyn
2
Blwyddyn
3
Blwyddyn
4
Blwyddyn
5
Strategaeth
Strategaeth gorfforaethol pum mlynedd
Cynllun busnes blynyddol
Cynllun busnes blynyddol
Cynllun busnes blynyddol
Cynllun busnes blynyddol
Cynllun busnes blynyddol
Adroddiad blynyddol
Adroddiad blynyddol
Adroddiad blynyddol
Adroddiad blynyddol
Adroddiad blynyddol

# Ein trawsnewidiad i TrC 2.0

TRAFNIDIAETH CYMRU
TRANSPORT FOR WALES

**Yn 2023/24, rhoddodd Llywodraeth Cymru ddiweddariad i'n llythyr cylch gwaith tymor pum mlynedd y llywodraeth, gan adeiladu arno i sicrhau bod trafnidiaeth yn chwarae ei rhan i gyflawni targedau hinsawdd Llywodraeth Cymru, ei rhwymedigaethau i genedlaethau'r dyfodol a'i nodau llesiant. Cafodd ein llythyr cylch gwaith wedi'i ddiweddaru ei alw'n 'TrC 2.0'. Roedd yn canolbwyntio ar yr angen i greu rhwydwaith trafnidiaeth gwirioneddol integredig gydag un rhwydwaith, un amserlen, un tocyn ac un tîm i sbarduno newid dulliau teithio i ddulliau trafnidiaeth cynaliadwy.**

Bydd yr amcanion polisi strategol canlynol yn llywio datblygiad TrC:

- Cynyddu'r newid dulliau teithio i ddulliau trafnidiaeth cynaliadwy i gefnogi rhwymedigaethau a thargedau trafnidiaeth Sero Net Cymru Llywodraeth Cymru.
- Darparu system drafnidiaeth gwbl integredig, mewn partneriaeth agos â llywodraeth leol a llywodraeth ganolog.
- Meithrin diwylliant aml-ddull yng Nghymru ar draws y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector.
- Annog a chefnogi pobl i addasu ac ystyried dulliau cynaliadwy fel eu dewis trafnidiaeth diofyn.
- Datblygu rhagor o gyfleoedd ac ymddygiadau masnachol i gynyddu refeniw, i leihau costau, i liniaru risgiau ac i fanteisio ar gyfleoedd.

Mae ein Bwrdd wedi ymateb i'n llythyr cylch gwaith wedi'i ddiweddaru ac wedi nodi'r ffyrdd canlynol y bydd yn arwain y gwaith o weithredu TrC 2.0:

- Bydd cynllunio, adeiladu a gweithredu system deithio integredig wedi'i chydgysylltu'n llawn gyda'r defnyddiwr yn ganolog iddi, yn darparu cyfleoedd enfawr i sbarduno newid dulliau teithio i ffyrdd mwy cynaliadwy o deithio

- Rydym yn newid ein dull llywodraethu a'n dull gweithredu fel Bwrdd i ddarparu'r arweinyddiaeth ar newid ymddygiad, newid dulliau teithio, integreiddio ac arloesi sy'n ofynnol yn sgil hyn. Rydym yn cydnabod yn arbennig yr angen i weithio'n effeithiol gydag awdurdodau lleol ac yn croesawu presenoldeb a mewnbwn Arweinydd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn y Bwrdd, sydd eisoes wedi cael effaith gadarnhaol sylweddol

- Bydd TrC 2.0 a thu hwnt wrth galon popeth mae'r Bwrdd yn ei ddweud ac yn ei wneud. Yn ogystal â'r trafodaethau rydyn ni'n eu cael ym mhrif gyfarfodydd misol y Bwrdd ac yn is-bwyllgorau'r Bwrdd, rydyn ni wedi sefydlu grŵp llywodraethu newydd sy'n canolbwyntio ar sicrhau bod yr holl brosesau a chamau gweithredu angenrheidiol ar waith i gyflawni TrC 2.0 a mwy. Yn hollbwysig, bydd angen i hyn ganolbwyntio ar gyfnod sylweddol a hir o hyfforddiant, uwchsgilio a newid diwylliant. Bydd hwn yn cael ei gadeirio gan aelod o'r Bwrdd. Bydd yr aelodaeth yn cynnwys cynrychiolaeth o'r Bwrdd, y tîm Arwain Gweithredol, Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid allanol

- Yn ogystal â'r grŵp llywodraethu newydd hwn, bydd pob is-bwyllgor y Bwrdd yn sicrhau bod TrC 2.0 yn cael ei adlewyrchu yn eu cylch gorchwyl a'u hagendâu. Bydd adran benodol o bob prif gyfarfod o'r Bwrdd yn parhau i fod yn ymroddedig i ddod â gwaith yr is-bwyllgorau at ei gilydd a chytuno ar gamau pellach i gyflawni'r cylch gwaith

- Bydd y Bwrdd hefyd yn parhau i ganolbwyntio ar berfformiad gweithredol ac ariannol craidd, bob amser o fewn cyd-destun TrC 2.0 a chyflawni canlyniad Un Rhwydwaith, Un Amserlen, Un Tocyn ac Un Tîm

- Byddwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i Lywodraeth Cymru yn rheolaidd am ein cynnydd ac yn barod i drafod unrhyw agweddau ar hyn ar unrhyw adeg

Mae'r gweithgareddau a nodir yn ein cynllun busnes yn cefnogi'r amcanion polisi strategol hyn a amlinellir yn llythyr cylch gwaith 2.0 TrC yn llawn.

Rydym yn cydnabod bod angen rhagor o esblygiad o ran diwylliant ac arferion sefydliadol TrC er mwyn gwreiddio meddylfryd teithio aml-ddull. Byddwn yn rhoi rhwydweithiau hygyrch ac integredig wrth galon ein penderfyniadau, a byddant yn rhan flaenllaw ohonynt. Rydyn ni'n darparu rhaglen newid diwylliannol sefydliadol, gan uwchsgilio ein cydweithwyr er mwyn gallu defnyddio sgiliau ar draws mwy nag un dull teithio. Byddwn yn arbenigo mewn newid ymddygiad, gan feincnodi ein galluoedd yn erbyn sefydliadau o'r radd flaenaf ledled y byd.

Byddwn hefyd yn gwneud yn siŵr bod sgiliau ein Bwrdd yn briodol ar gyfer cylch gwaith sy'n ehangu drwy gynnal adolygiad blynyddol. Byddwn yn gwneud tîm TrC yn fwy cynrychioliadol o bobl Cymru. Byddwn yn annog y defnydd o'r Gymraeg yn ein gwasanaethau ac yn y gweithle.

# Ein blaenoriaethau yn 2024/25

## Cynaliadwyedd a'r gallu i wrthsefyll yr hinsawdd

Rydym yn cydnabod yr effaith mae newid yn yr hinsawdd yn ei chael ar weithrediadau trafnidiaeth. Rydym hefyd yn cydnabod ein rôl o ran darparu cymorth i Lywodraeth Cymru i ymateb i'r argyfwng hinsawdd a chyflawni ei nodau sero net. Bydd hyn yn gwella bywydau pobl Cymru. Mae Cynllun Cadernid ac Addasu i Newid Hinsawdd TrC yn amlinellu sut rydym yn ymateb i risg hinsawdd drwy greu rhwydwaith trafnidiaeth sy'n gallu gwrthsefyll y newid yn ein hinsawdd ac a fydd yn ddiogel ac yn hygyrch yn y blynyddoedd i ddod.

Byddwn yn lleihau ein heffaith amgylcheddol drwy archwilio ffyrdd arloesol o reoli carbon ar draws ein hystad a'n gweithrediadau er mwyn gwella cynaliadwyedd ymhellach. Byddwn yn mynd ati i addysgu ac annog pobl Cymru a'r gororau i wneud dewisiadau teithio a fydd yn lleihau eu hôl troed carbon. Byddwn yn cyflawni ein gwaith sy'n adlewyrchu ein statws fel corff sydd newydd ei enwi ar Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Byddwn yn dilyn egwyddorion y pum ffordd o weithio ac yn sicrhau bod ein gweithgareddau'n cefnogi'r saith nod llesiant.

## Rhwydwaith teithio integredig

Yn 2024/25 byddwn yn cyflwyno trenau newydd ychwanegol sy'n gweithredu ar Linellau Craidd y Cymoedd yn dilyn rhaglen sylweddol o waith trawsnewidiol ar Linellau Treherbert, Aberdâr a Merthyr. Mae hyn wedi cynnwys gosod Cyfarpar Llinellau Uwchben i alluogi trenau trydan cynaliadwy newydd i weithredu. Bydd y trenau newydd ar Linellau Craidd y Cymoedd yn fwy cyfeillgar i'r amgylchedd ac yn dawelach. Bydd y gwaith hwn hefyd yn galluogi amseroedd teithio byrrach a chynnydd mewn gwasanaethau o Gaerdydd i Dreherbert, Aberdâr a Merthyr Tudful (ac i'r gwrthwyneb) yn y dyfodol.

Ar bob cyfle, rydym yn gweithio i sicrhau bod gwasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus yn cael eu hintegreiddio'n weithredol ar bob cyfle drwy gydgysylltu llwybrau ac amserlenni. Rydym yn gweithio tuag at gyflawni nod Llywodraeth Cymru o gael rhwydwaith bysiau wedi'i fasnachfreinio a gefnogir gan integreiddio a gwella gwybodaeth, prisiau a systemau tocynnau. Bydd masnachfreinio bysiau yn galluogi cynllunio rhwydwaith trafnidiaeth aml-ddull cydgysylltiedig a gwasanaeth integredig i gwsmeriaid. Bydd hyn yn gwella mynediad ein cwsmeriaid i'r rhwydwaith trafnidiaeth gyhoeddus ac yn cynyddu'r defnydd o deithio, gan arwain at leihad mewn siwrneiau a wneir mewn ceir preifat.

Rydym yn ymrwymedig i sicrhau bod teithio llesol yn rhan allweddol o rwydwaith teithio integredig Cymru. Mae yna amrywiaeth eang o fanteision sy'n gysylltiedig â chynyddu lefelau cerdded, olwynio a beicio. Byddwn yn gweithio i'w gwneud hi'n haws teithio'n llesol drwy wella cyfleoedd i bobl Cymru wneud hynny. Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid a rhanddeiliaid allweddol i greu a hyrwyddo rhwydweithiau sy'n gallu sicrhau mai siwrneiau teithio llesol yw'r dewis cywir, boed ar gyfer siwrneiau cyfan neu fel rhan o siwrneiau sydd hefyd yn cynnwys trafnidiaeth gyhoeddus.

Rydyn ni'n gweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru i gefnogi'r gwaith o ddatblygu a chyflawni strategaeth cludo nwyddau a logisteg, gan rannu arbenigedd i gynnig mwy o werth am arian ac arloesi posibl. Byddwn hefyd yn cefnogi Llywodraeth Cymru i weithredu'r Bil Tacsis a Cherbydau Hurio Preifat (Cymru) arfaethedig ac ymdrechion i gynnwys tacsis a cherbydau hurio preifat yn rhwydwaith trafnidiaeth gyhoeddus integredig Cymru.

## Trafnidiaeth wledig

Bydd TrC yn gweithio i sicrhau'r cyfleoedd teithio mwyaf cynaliadwy a hygyrch i gymunedau gwledig. Mae cymunedau gwledig yn cyfrif am draean o boblogaeth Cymru ac maent wedi'u gwasgaru dros 80% o fas tir Cymru. Mae angen cynnig amrywiaeth o opsiynau trafnidiaeth i gymunedau gwledig sy'n darparu mynediad hawdd at gyflogaeth, gofal iechyd, addysg a chyfleoedd hamdden.

Bydd cynllunio trafnidiaeth gyhoeddus yn allweddol. Mae hyn yn cynnwys atebion trafnidiaeth sy'n ymateb i'r galw, fel fflecsi, sy'n gwella'r opsiynau o ran tocynnau ac integreiddio rhwng dulliau teithio lleol a gwasanaethau rhanbarthol neu genedlaethol fel rhwydwaith TrawsCymru a gwasanaethau rheilffyrdd. Bydd hyn yn cael ei ategu gan atebion teithio llesol a thrydydd sector, fel clybiau ceir cerbydau trydan. Bydd y rhain yn rhoi dewisiadau ymarferol i bobl sy'n byw mewn cymunedau gwledig yn lle bod yn berchen ar gar er mwyn iddynt allu mynd i'r mannau maent am fynd iddynt ar yr adegau mae angen iddynt deithio.

## Profiadau cwsmeriaid

Rydym am sicrhau bod gan bawb fynediad cyfartal at ddulliau teithio cynaliadwy. Yn unol â Llwybr Newydd: Strategaeth Drafnidiaeth Cymru, byddwn yn ceisio mabwysiadu arferion gorau, defnyddio egwyddorion dylunio cynhwysol, a darparu hyfforddiant i weithio tuag at gyflawni ein cyfrifoldebau cyfreithiol a rheoleiddiol. Bydd hyn yn sicrhau bod ein rhwydwaith teithio, ein gwasanaethau a'n gwybodaeth yn hygyrch i bawb.

Mae profiad cwsmeriaid yn allweddol i feithrin ymddiriedaeth a gwella boddhad cwsmeriaid. Yma, mae gwella ein cynnig digidol i gwsmeriaid yn flaenoriaeth.

Byddwn yn parhau i weithio i ddarparu ateb digidol teithio aml-ddull integredig ar gyfer cynllunio teithiau, tocynnau a gwybodaeth am wasanaethau. Bydd hyn yn helpu i chwalu'r rhwystrau sy'n atal pobl rhag defnyddio gwahanol ddulliau teithio a'u gwneud yn fwy hygyrch. Ar ben hynny, rydym wedi darparu cynllun peilot o'r rhwydwaith Talu wrth Deithio cyntaf y tu allan i Lundain a de-ddwyrain Lloegr. Rydyn ni'n bwriadu cyflwyno Talu wrth Deithio ar draws Llinellau Craidd y Cymoedd i gyd yn 2024/25. Bydd hyn yn gwneud tocynnau trên yn symlach, yn haws ac yn cynnig gwell gwerth am arian i'n cwsmeriaid.

Fel rhan o'n strategaeth ddigidol, byddwn yn datblygu ein gweledigaeth i TrC fod yn sefydliad sy'n cael ei alluogi'n ddigidol, sy'n cael ei arwain gan ddata ac sy'n cael ei sbarduno gan dechnoleg. Bydd ein strategaeth ddigidol yn canolbwyntio ar anghenion y defnyddiwr a byddwn yn datblygu ein gwerth yn cynorthwyo cwsmeriaid ac yn sicrhau bod ein gwasanaethau, ein seilwaith a'n cydweithwyr yn gallu gweithredu mewn amgylchedd diogel, modern a didrafferth. Byddwn hefyd yn hyrwyddo gyrfaoedd digidol, data a thechnoleg ar draws y sefydliad i sicrhau ein bod yn gallu bod yn ystwyth ac addasu i fodloni disgwyliadau ein cwsmeriaid.

Rydym yn mynd ati'n rhagweithiol i hyrwyddo diwylliant o arloesi ar draws y sefydliad, gan arwain y ffordd o ran datblygu a gweithredu gwasanaethau, cynhyrchion a thechnolegau arloesol i gefnogi newid mewn dulliau teithio. Mae sicrhau bod meddwl mewn ffyrdd arloesol yn rhan flaenllaw o waith TrC yn allweddol er mwyn sicrhau ein bod yn cyflawni ein hamcanion mewn ffordd ystwyth, effeithlon ac effeithiol.

## Newid ymddygiad o blaid teithio

Rydyn ni eisiau i bobl yng Nghymru ddewis defnyddio teithio llesol neu drafnidiaeth gyhoeddus i gyrraedd eu cyrchfan yn hytrach na defnyddio eu car. Er mwyn galluogi hyn, mae angen i ni feithrin diwylliant teithio cynaliadwy ac aml-ddull yng Nghymru.

Byddwn yn gwneud hyn drwy ddatblygu a gweithredu rhaglen newid diwylliannol sefydliadol i wreiddio newid ymddygiad yn TrC, ochr yn ochr â datblygu diwylliant sefydliadol gyda Llywodraeth Cymru. Bydd y rhaglen hon yn cael ei diffinio fel rhan o'n strategaeth newid ymddygiad a bydd yn cael ei chyflwyno mewn partneriaeth ag Iechyd Cyhoeddus Cymru. Byddwn yn gweithio i helpu Cyd-bwyllgorau Corfforedig i ddatblygu eu Cynlluniau Trafnidiaeth Rhanbarthol, ac rydym yn disgwyl gweld mwy o gyfleoedd i gydweithio ymhellach. Bydd hyn yn helpu i hyrwyddo diwylliant o opsiynau teithio aml-ddull ledled Cymru.

Mae newid mewn ymddygiad teithio yn gofyn am ddealltwriaeth allweddol o wyddor ymddygiad ac mae datblygu a defnyddio'r gallu hwn yn parhau i fod yn ganolog i'n gweithgareddau yn 2024/25. Bydd mentrau newid ymddygiad, yn ogystal â gallu ehangach ym mhob rhan o TrC, yn rhoi'r canlynol i unigolion, cymunedau a sefydliadau:

- Mwy o gyfle i wneud dewisiadau teithio cynaliadwy
- Y cymhelliant i leihau'r defnydd o geir preifat
- Y gallu i weithredu newidiadau yn eu hymddygiad eu hunain drwy hyfforddi, cefnogi a chael gwared ar rwystrau er mwyn ysgogi'r defnydd o ddulliau teithio cynaliadwy.

Bydd hyn yn cael ei gyflawni drwy wneud y canlynol:

- Parhau i gyflwyno mentrau a gwasanaethau sy'n seiliedig ar egwyddorion sydd wedi'u hymchwilio'n dda ac arferion da hysbys er mwyn cynyddu'r defnydd o drafnidiaeth gynaliadwy
- Gwella gweithgarwch a buddsoddiad presennol gan ddefnyddio dulliau newid ymddygiad i gynyddu eu heffaith
- Darparu prosiectau arddangos sydd wedi'u dylunio i gynyddu'r defnydd o deithio cynaliadwy ar draws pob modd
- Datblygu gallu TrC i gefnogi'r newid i ddulliau teithio cynaliadwy, gan adeiladu ar hyfforddiant presennol, darparu gwybodaeth ac integreiddio newid ymddygiad ym mhob rhan o ddiwylliant y sefydliad
- Cyfnerthu data TrC i lywio'r gwaith o ddatblygu a darparu ymyriadau.

Gan adeiladu ar y cynlluniau a'r mentrau newid ymddygiad a gyflwynwyd yn ystod 2023/24, byddwn yn datblygu ein strategaeth tymor hwy TrC ar gyfer newid ymddygiad. Bydd hyn yn cefnogi amcanion Llywodraeth Cymru yn Llwybr Newydd: Strategaeth Drafnidiaeth Cymru ar draws TrC. Byddwn yn gwneud hyn drwy ddefnyddio'r gallu rydym wedi'i ddatblygu a'i alluogi drwy ein model sefydliadol sy'n ymgorffori newid ymddygiad drwy'r busnes cyfan.

## Ein sefydliad

Cafodd ein strwythur sefydliadol a'n model gweithredu eu dylunio i sicrhau gwaith mwy effeithiol ac effeithlon ar draws dulliau trafnidiaeth. Byddwn yn parhau i adolygu hyn i sicrhau ei fod yn cael ei ddarparu yn y ffordd orau bosibl ac yn cefnogi ein trawsnewidiad i TrC 2.0. Bydd hyn yn sicrhau gwell gwerth am arian wrth i ni gydnabod yr angen i leihau ein cymhorthdal fesul teithiwr a darparu rhwydwaith teithio gwirioneddol gynaliadwy.

Drwy ein System Rheoli Risg Menter sefydledig, byddwn yn rheoli risgiau a materion yn unol â'n datganiadau parodrwydd i dderbyn risg a osodwyd gan y Bwrdd. Byddwn yn defnyddio'r rhain i fod yn uchelgeisiol yn ein dull gweithredu, gan chwilio am gyfleoedd a manteisio arnynt wrth gyflawni ein hymrwymiadau.

## Cyfleoedd masnachol

Ers y newid sefydliadol yn 2022/23, rydym wedi dyblu ein ffocws ar gyfleoedd masnachol. Byddwn yn parhau i dargedu mentrau sy'n canolbwyntio mwy ar fasnach a ffyrdd o greu gwerth i'r trethdalwr drwy greu cyfleoedd refeniw newydd a lleihau beichiau costau. Mae rhai o'r ffyrdd y byddwn yn gwneud hyn yn cynnwys cael gwerth masnachol o'n hasedau sy'n wynebu cwsmeriaid. Mae'r rhain yn cynnwys hysbysebu, darpariaeth manwerthu, cyfleoedd drwy brofiad, a phartneriaethau â noddwyr masnachol. Rydyn ni hefyd yn sefydlu'r mecanweithiau ar gyfer gweithio mewn partneriaeth â darparwyr gwefru cerbydau trydan i gefnogi mentrau datgarboneiddio ehangach Llywodraeth Cymru. Rydyn ni wedi sicrhau achos busnes cadarnhaol dros sefydlu trefniant masnachol ar y rhwydwaith ffeibr optig sy'n eiddo i TrC ar Linellau Craidd y Cymoedd. Byddwn yn ceisio bwrw ymlaen â'r ddau gynllun hyn yn 2024/25.

Mae adolygiad o holl gost manwerthu sianeli gwerthu wedi bod ar y gweill. Mae rhaglen i sicrhau mwy o werth am arian wedi cael ei sefydlu, gan gynnwys cyflwyno prisiau rheoli refeniw mwy deinamig ar draws y rhwydwaith, lansio cynnyrch gwerthu cystadleuol (uwch a multi-flex). Mae dull mwy arloesol o ran tocynnau a phrisiau yn cael ei ddatblygu a bydd yn cael ei gyflwyno ar draws 2024/25.

Rydyn ni'n frwd dros gefnogi twf economaidd yn y cymunedau rydyn ni'n eu gwasanaethu. Mae hyn yn cynnwys hyrwyddo cyfranogiad cynhwysol a chynyddu cynaliadwyedd a gwerth cymdeithasol yn ein cyfleoedd caffael yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael (Cymru) 2023. Roeddem yn falch o gyhoeddi y llynedd ein bod wedi dyfarnu contract i gynhyrchu a danfon gwisgoedd i Elite Clothing Solutions yng Nglynebwy. Maent yn fenter gymdeithasol sy'n darparu cyflogaeth i bobl leol, cyfleoedd yn y gadwyn gyflenwi a hyfforddiant i bobl ag anableddau neu'r rheini sydd dan anfantais.

Byddwn yn parhau i gyhoeddi ein holl ddigwyddiadau i gyflenwyr a chyfleoedd caffael agored drwy GwerthwchiGymru. Byddwn yn gweithio gyda Busnes Cymru a Diwydiant Cymru i nodi mentrau bach a chanolig lleol i'w gwahodd i'n digwyddiadau caffael a chyflenwyr wrth i ni barhau i chwilio am gyfleoedd i weithio gyda nhw. Byddwn yn sicrhau eu bod yn gallu gweld y gwaith sydd ar y gweill drwy gyhoeddi ein llif caffael. Byddwn hefyd yn symleiddio ein dull o fesur gwerth cymdeithasol mewn prosesau caffael ac yn canolbwyntio ar ymgysylltu â busnesau bach a chanolig ar bynciau a fydd yn eu galluogi i wella eu dealltwriaeth o Drafnidiaeth Cymru. Byddwn yn defnyddio eu hadborth i sicrhau ei bod yn hawdd gwneud busnes â ni.

# Ein cyllid ar gyfer 2023/24

TRAFNIDIAETH CYMRU
TRANSPORT FOR WALES

**Daw ein hincwm gan Lywodraeth Cymru drwy grant cylch gwaith ac ar gyfer gweithgareddau a adlewyrchir yn ein llythyr cylch gwaith, refeniw teithwyr, ffynonellau incwm eraill fel ERDF ac awdurdodau lleol.**

Rydym wedi rhannu cyllidebau manwl â Llywodraeth Cymru, a chytunwyd ar feysydd gwariant blaenoriaeth. Mae Tabl 1 isod yn nodi sut byddwn yn cyflawni ein cylch gorchwyl ar gyfer 2024/25, gan adlewyrchu refeniw a chyfalaf mewn meysydd allweddol, er mae posibilrwydd y gall y rhain newid.

Yn hefyd, byddwn yn cael ffynonellau sylweddol eraill o incwm o Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop a refeniw rheilffyrdd sy'n cynnwys refeniw teithwyr.

Rydym yn cydnabod y gallai'r ffigurau hyn yng Nghynllun Busnes 2024/25 arwain at nifer o bwysau cyllido yn erbyn llythyr cyllid Llywodraeth Cymru. Byddwn yn parhau i weithio gyda thîm nawdd Llywodraeth Cymru a swyddogion polisi i fynd i'r afael â'r rhain a'u lliniaru yn ogystal â chynllunio ar gyfer blynyddoedd i ddod. Nid yw'r ffigurau cyllido hyn o fewn y llythyr cyllido yn cynnwys cyllid gan lywodraeth y DU sydd eto i gael ei gadarnhau ar gyfer 2024/25. Maent hefyd yn eithrio unrhyw addasiadau cyllidebol ar gyfer Lesoedd IFRS16 sydd wedi cael eu mabwysiadu gan y Llywodraeth Ganolog - mae effaith hyn yn dal i gael ei monitro a'i hadrodd ar wahân.

Yn unol â'n Herthyglau, mae TrC yn gofyn am awdurdod gan Lywodraeth Cymru i ymgymryd â mathau penodol o drafodion eiddo, gan gynnwys gwerthu, prynu a phrydlesu. Mae TrC yn cynnal Adnodd Tracio Trafodion i fonitro cynnydd ar drafodion eiddo ac i gofnodi telerau'r trafodion hyn. Mae TrC wedi cael awdurdod er mwyn ymgymryd â'r trafodion eiddo sydd wedi'u nodi yn yr Adnodd Tracio Trafodion.

## Tabl 1: Sut rydym yn bwriadu gwario ein cyllid yn 2024/25

| | | £ miliwn |
|---|---|---|
| **Refeniw** | Gwasanaethau rheilffordd i deithwyr a chyfnewidfeydd trafnidiaeth | 390 |
| | Gwariant arall sy'n ymwneud â'r rheilffyrdd gan gynnwys costau perchennog seilwaith, rheoli rhanddeiliaid, ymgysylltu â chwsmeriaid a gwaith cyn cyfalaf ar wella gorsafoedd | 37 |
| | Gwasanaethau cynghori ar fysiau, ffyrdd ac aml-foddol a ariannwyd gan refeniw | 5 |
| | Grantiau i gefnogi gwasanaethau bysiau | 6 |
| | **Cyfanrif** | **438** |

| | | £ miliwn |
|---|---|---|
| **Cyfalaf** | Buddsoddiad ar gyfer gwasanaethau cludo teithwyr ar y rheilffyrdd, gan gynnwys cerbydau, a gwella depos a gorsafoedd | 57 |
| | Dylunio ac gwaith adeiladu i drawsnewid asedau rheilffyrdd Llinellau Craidd y Cymoedd | 166 |
| | Gwaith adnewyddu'r Rheolwr Seilwaith a gwariant arall sy'n gysylltiedig â rheoli asedau rheilffyrdd | 14 |
| | Caffael bysiau a phrosiectau eraill sy'n rhoi cyngor ar fysiau | 30 |
| | Grantiau Teithio Llesol i awdurdodau lleol | 50 |
| | Prosiectau eraill, gan gynnwys Strategaeth Drafnidiaeth, Cyfnewidfa Caerdydd, Metros eraill, ffyrdd a cherbydau trydan | 27 |
| | **Cyfanrif** | **344** |

# Mesur ein perfformiad

TRAFNIDIAETH CYMRU
TRANSPORT FOR WALES

**Mae TrC yn gwmni sy'n eiddo i Lywodraeth Cymru sy'n darparu gwasanaethau allweddol. Mae mesur ein perfformiad yn hanfodol i sicrhau bod ein cwsmeriaid, ein rhanddeiliaid, ein trethdalwyr a Llywodraeth Cymru yn gallu ein dwyn ni i gyfrif. Mae angen i ni fesur ein perfformiad er mwyn sicrhau gwelliant gweithredol a sefydliadol parhaus wrth ddarparu ein gwasanaethau a sut rydyn ni'n cynnal ein hunain.**

Bob chwarter, mae TrC yn cyhoeddi cyfres o ddangosyddion perfformiad allweddol corfforaethol i fesur ein perfformiad fel sefydliad ar draws dulliau gwahanol o deithio ac ym meysydd cwsmeriaid, gweithrediadau, diogelwch, cyllid, llywodraethu, pobl a gwasanaethau corfforaethol eraill. Mae'r dangosyddion perfformiad allweddol yn monitro'r cynnydd yn erbyn targedau y cytunwyd arnynt i ddarparu dull mesur gwrthrychol o ba mor effeithlon ac effeithiol rydym yn cyflawni ein cynllun busnes, ein strategaeth gorfforaethol pum mlynedd, ac amcanion ehangach. Byddwn yn adolygu ein mesurau perfformiad allweddol i adlewyrchu ein cylch gwaith sy'n datblygu.

Mae ein perfformiad yn erbyn y dangosyddion hyn yn cael ei adrodd i'n Bwrdd ac i Lywodraeth Cymru ar ffurf cerdyn sgorio chwarterol.  Yn 2023/24 sefydlwyd Bwrdd Perfformiad chwarterol Llywodraeth Cymru a TrC, lle mae cynnydd yn erbyn cynllun busnes blynyddol a strategaeth gorfforaethol pum mlynedd TrC yn cael ei fonitro, gan dynnu sylw at y bartneriaeth rhwng Llywodraeth Cymru a TrC.

Rydym hefyd yn adrodd ar ein perfformiad ar lefel cyfarwyddiaeth i'n Tîm Arwain Gweithredol a'n Bwrdd. Gwneir hyn drwy'r cerdyn sgorio corfforaethol a chyfres ehangach o ddangosyddion perfformiad gweithredol.

Mae ein dangosyddion perfformiad allweddol yn cael eu hadolygu'n rheolaidd gan ein Bwrdd a Llywodraeth Cymru. Gosodir targedau sy'n cyfeirio at y lefelau perfformiad presennol. Mae'r targedau'n destun adolygiad a gwaith mireinio parhaus, i sicrhau eu bod yn heriol ond yn gyraeddadwy.

# Cyflawni ein cylch gwaith

## Mae’r adran hon o’n cynllun busnes yn nodi ein prif weithgareddau y byddwn yn eu cyflawni yn 2024/25.

Diben ein gweithgareddau yw annog newid ymddygiad ym maes trafnidiaeth er mwyn galluogi newid dulliau teithio i ddefnyddio trafnidiaeth fwy cynaliadwy, gan leihau nifer y siwrneiau mewn ceir preifat a chynyddu nifer y bobl sy’n dewis defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus neu ddulliau teithio llesol. Mae’r adran hon wedi’i strwythuro i ddangos y gweithgareddau y byddwn yn eu cyflawni yn 2024/25. Mae’n dilyn yr un strwythur â’n strategaeth gorfforaethol gyda’r amcanion yn cyd-fynd â’n mecanweithiau systemau ac ategol a mecanweithiau is-systemau ac is-ategol. Er ein bod wedi cynllunio ein gweithgareddau i gefnogi ein huchelgeisiau hirdymor, rydym yn cydnabod pwysigrwydd bod yn hyblyg ac yn ystwyth fel sefydliad i ymateb i amgylchiadau annisgwyl. Mae ein gweithgareddau isod i gyd yn amodol ar broses gymeradwyo TrC o fewn ein fframwaith dirprwyo a’n hamgylchedd rheoli, a lle bo angen, deddfwriaeth berthnasol yn cael ei phasio gan Lywodraeth Cymru.

# Cynllun

# Dadansoddi a chael gwybodaeth

### Llais y cwsmer a gwybodaeth am gwsmeriaid

Byddwn yn datblygu setiau data teithio aml-ddull ac yn ehangu ein galluoedd dadansoddi i lywio profiad y cwsmer yn well.

### Cymorth mapio seilwaith gwefru cerbydau trydan

Byddwn yn cefnogi'r gwaith o ddatblygu adnoddau mapio a rhagweld newydd i gysylltu landlordiaid masnachol yn well â chynigion masnachol deniadol ar gyfer datblygu pwyntiau gwefru.

### Arolwg Teithio Cenedlaethol

Byddwn yn lansio Arolwg Teithio Cenedlaethol newydd Cymru, gan gasglu data i fonitro llwyddiant Llwybr Newydd: Strategaeth Drafnidiaeth Cymru 2021.

### Setiau data gofodol ar gael i randdeiliaid

Byddwn yn cyhoeddi setiau data gofodol y gellir eu lawrlwytho at ddibenion ymchwil. Byddwn yn creu rhaglen syllwr hawdd ei defnyddio i ddelweddu setiau data gofodol.

### Modelau trafnidiaeth

Byddwn yn datblygu blynyddoedd rhagolwg newydd ar gyfer Model Trafnidiaeth De-ddwyrain Cymru. Bydd y model hwn yn ystyried twf tai a chyflogaeth rhanbarthol. Byddwn yn gweithio gyda chynghorwyr arbenigol i ddelio ag ansicrwydd o ran rhagweld y galw am drafnidiaeth yng Nghymru. Byddwn yn parhau i gynnal Model Trafnidiaeth Gogledd Cymru a Model Trafnidiaeth De-orllewin a Chanolbarth Cymru. Byddwn yn defnyddio'r gwaith hwn i gynghori'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig wrth iddynt ddatblygu'r Cynlluniau Trafnidiaeth Rhanbarthol.

# Datblygu rhwydweithiau bysiau a theithio llesol

### Gweithredu Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013

Byddwn yn datblygu gweithgareddau i gefnogi'r gwaith o weithredu Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013, drwy'r Cynllun Cyflawni Teithio Llesol yn bennaf. Bydd hyn yn cynnwys cyhoeddi data cychwynnol o'r Fframwaith Monitro Teithio Llesol Cenedlaethol a chefnogi Llywodraeth Cymru i sefydlu fframwaith asesu a chyllido newydd i gefnogi gwelliannau i'r ddarpariaeth. Bydd hefyd yn cynnwys ehangu a gweithredu rhaglen hyfforddi amlddisgyblaethol ar gyfer ymarferwyr ac arweinwyr teithio llesol. Bydd hyn yn cefnogi awdurdodau lleol yn benodol ynghyd ag adolygiad o sut gall awdurdodau lleol gael gafael ar sgiliau teithio llesol arbenigol o'r gadwyn gyflenwi, a darparu canllawiau addas. Bydd hyn yn gwella gwybodaeth a gallu yn y sector.

### Tîm Dylunio Teithio Llesol

Byddwn yn datblygu gallu'r tîm hwn ymhellach i gefnogi'r gwaith o ddatblygu'r Rhaglen Braenaru a gweithgareddau perthnasol eraill, gan gynnwys proses adolygu dyluniadau ar gyfer cynlluniau sy'n cael eu hariannu drwy Raglen y Gronfa Teithio Llesol.

### Rhaglen y Gronfa Teithio Llesol

Byddwn yn rheoli'r Gronfa Teithio Llesol ar ran Llywodraeth Cymru ac yn gweithio i wella'r prosesau a'r gweithdrefnau rheoli sy'n gysylltiedig â'r rhaglen. Bydd hyn yn cynnwys rheolaeth ariannol, gan gwblhau adroddiadau chwarterol ar hawliadau, a rhoi cymorth a chyngor i awdurdodau lleol. Bydd yn adeiladu ar y gweithgarwch peilot a gynhaliwyd yn 2023/24 i wella ystyriaethau dylunio cynhwysol mewn cynlluniau sy'n cael eu hariannu drwy Raglen y Gronfa Teithio Llesol. Byddwn yn gwneud paratoadau i gefnogi Llywodraeth Cymru i weinyddu rhaglen y Grant Llwybrau Diogel mewn Cymunedau yn 2025/26, yn amodol ar benderfyniadau ehangach ynghylch cyllid grant ar gyfer awdurdodau lleol a'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig.

### Integreiddio teithio llesol

Byddwn yn gwella'r integreiddio rhwng teithio llesol a thrafnidiaeth gyhoeddus drwy weithio gydag awdurdodau lleol i baratoi Cynlluniau Rhwydwaith Gorsafoedd a fydd yn nodi ac yn datblygu llwybrau teithio llesol blaenoriaeth uchel i orsafoedd, yn barod i'w darparu yn y dyfodol. Byddwn hefyd yn gwella'r mannau parcio beiciau yng ngorsafoedd TrC ar draws y rhwydwaith rheilffyrdd, drwy ddarparu rhaglen o gyfleusterau parcio beiciau mwy diogel yn unol â Chanllawiau Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013.

### Rhaglen braenaru teithio llesol

Byddwn yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol a phartneriaid cyflenwi allweddol eraill i ddatblygu rhaglen Braenaru o brosiectau teithio llesol. Mae'r rhain yn cynnwys cynigion i nodi a dangos dulliau amgen o ddarparu sy'n galluogi cynlluniau mwy arloesol, ansawdd uchel ac effaith uchel. Maent hefyd yn cynnwys cynigion ar gyfer darparu siediau beiciau diogel ar y stryd mewn cydweithrediad â phartneriaid allweddol fel awdurdodau lleol.

### Ehangu argaeledd llogi beiciau

Byddwn yn datblygu achos busnes i sefydlu opsiynau ar gyfer ehangu cyfleoedd llogi beiciau mewn lleoliadau priodol ledled Cymru. Byddwn yn cydweithio ag awdurdodau lleol i ddatblygu cynlluniau priodol gyda'r bwriad o ailddechrau llogi beiciau a'u dychwelyd i'r lleoliad yng ngorsafoedd rheilffordd TrC yn 2025.

### Rhaglen masnachfreinio bysiau

Byddwn yn cydlynu rhaglen y fasnachfraint, gan gyflawni yn erbyn cerrig milltir allweddol.

### Dylunio rhwydwaith bysiau

Byddwn yn datblygu ffrwd waith y rhwydwaith bysiau gyda'r Timau Cynllunio Rhanbarthol.   Bydd hyn yn darparu rhwydweithiau trafnidiaeth gyhoeddus mwy cysylltiedig sy'n cefnogi cysylltedd ehangach rhwng bysiau a'r rhwydweithiau rheilffyrdd a theithio llesol, wedi'u cefnogi gan gynlluniau pontio rhwydweithiau bysiau i gyflawni polisi Llywodraeth Cymru a chyflwyno masnachfreinio yn y dyfodol. Bydd hyn yn seiliedig ar set gyson o egwyddorion a chynnig i gwsmeriaid.

### Cardiau teithio rhatach

Gan weithio ochr yn ochr â Llywodraeth Cymru, byddwn yn cynllunio ac yn cydlynu'r gwaith o greu tîm cyflenwi cardiau teithio rhatach canolog. Bydd hyn yn sicrhau arbedion o'r llwyth gwaith presennol sy'n cael ei ddyblygu ar draws awdurdodau lleol a TrC.

### Safonau seilwaith bysiau

Byddwn yn darparu Safonau Seilwaith Bysiau fel rhan o ffrwd waith seilwaith ffisegol yn y rhaglen masnachfreinio.

### Gwasanaethau fflecsi

Byddwn yn rhoi'r cynllun cyflawni ar waith ar gyfer fflecsi.

### Ailbweru bysiau

Byddwn yn canfod cyfleoedd i droi bysiau disel yn bŵer batri. Byddwn yn annog ac yn datblygu busnesau yng Nghymru i wneud y gwaith, gan greu manteision economaidd a chymdeithasol.

TRAFNIDIAETH CYMRU
TRANSPORT FOR WALES

# Datblygu Systemau a Rhwydweithiau

### Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru

Byddwn yn datblygu'r achos busnes a'r cynlluniau ar draws rhaglen integredig o brosiectau teithio aml-ddull yn Rhanbarth Gogledd Cymru hyd at Gam B+ y Cynllun Gwaith (Achos Busnes Amlinellol). Byddwn yn darparu cymorth cais am gyllid i bartneriaid cyflawni. Bydd y blaengynllun yn cael ei ddiweddaru a'i gysoni ag ymateb Llywodraeth Cymru i Gomisiwn Trafnidiaeth Gogledd Cymru.

### Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol Canolbarth Cymru ac ardaloedd gwledig

Byddwn yn helpu Llywodraeth Cymru, Cyd-bwyllgorau Corfforedig ac awdurdodau lleol i wreiddio amcanion a dulliau gwledig priodol yn eu cynlluniau at y dyfodol, yn enwedig gyda'r Cynlluniau Trafnidiaeth Rhanbarthol.

### Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol De-orllewin Cymru

Rydyn ni'n datblygu gwelliannau i reilffyrdd, bysiau a theithio llesol ar y cyd â llywodraeth leol. Bydd hyn yn creu mwy o gyfleoedd ar gyfer teithiau cynaliadwy, aml-ddull ar draws Bae Abertawe a Gorllewin Cymru.

### Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol De-ddwyrain Cymru

Rydyn ni'n datblygu rhwydwaith o welliannau rheilffyrdd, bysiau a theithio llesol ar y cyd â llywodraeth leol a Network Rail i ehangu ac integreiddio cyfleoedd ar gyfer teithiau cynaliadwy, aml-ddull ar draws De-ddwyrain Cymru. Bydd hyn yn cael ei lywio gan weithgareddau datblygu ar gyfer Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol De-ddwyrain Lloegr, Cynllun Datblygu Strategol, blaenoriaethau Bwrdd Rheilffyrdd Cymru ac Uned Gyflawni Burns.

### Prosiectau Trafnidiaeth Craidd Caerdydd

Byddwn yn parhau i ddatblygu a darparu rhaglen integredig o brosiectau trafnidiaeth ar gyfer Caerdydd. Byddwn yn gweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru, Cyngor Caerdydd, Prifddinas-Ranbarth Caerdydd, a rhanddeiliaid eraill i gyflawni ymrwymiadau presennol a nodi'r cyfleoedd newydd a'r ffynonellau cyllid addas.

### Cysylltiadau trafnidiaeth rhwng Gogledd-orllewin Lloegr, Gogledd Cymru, Canolbarth Cymru/y Gororau a De Cymru

Byddwn yn datblygu cynigion i leihau amseroedd teithio cyffredinol a gwasanaethu gwahanol anghenion teithio lleol, rhanbarthol a hir yn well ar lwybrau'r Gororau a Wrecsam i Amwythig er mwyn helpu i gefnogi buddsoddiad yn y dyfodol. I gyflawni hyn, byddwn yn gweithio gyda phartneriaid yn y diwydiant a phartneriaid rhanbarthol.

### Cysylltiadau trafnidiaeth rhwng Gogledd a De Gorllewin Cymru

Byddwn yn parhau i ddatblygu cynigion ar gyfer gwasanaethau bysiau strategol rhwng Caerfyrddin, Aberystwyth a Bangor i sicrhau amseroedd teithio cyflymach y gellir eu darparu yn y tymor canolig. Byddwn hefyd yn parhau â'r gwaith o nodi gofynion i ddiogelu aliniad yr hen goridorau rheilffordd rhwng Caerfyrddin ac Aberystwyth a Bangor i Afon Wen. Byddwn yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol a'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig i gynnwys y llwybrau yn eu Cynlluniau Trafnidiaeth Rhanbarthol.

### Cefnogaeth TrC ar gyfer Cyd-bwyllgorau Corfforedig a datblygu Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol

Bydd TrC yn darparu cyngor ac arweiniad arbenigol i'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig i gefnogi'r gwaith o ddatblygu a chyflawni'r Cynlluniau Trafnidiaeth Rhanbarthol.

### Rhannu gwybodaeth a throsglwyddo sgiliau

Byddwn yn gweithio gyda'n partneriaid, cyrff proffesiynol, cynghorwyr arbenigol a'r gadwyn gyflenwi i sicrhau bod gan Gymru'r sgiliau gofynnol i gyflawni'r Cynllun Cyflawni Cenedlaethol ar gyfer Trafnidiaeth. Byddwn yn gwneud hyn drwy rannu ein cyngor arbenigol a'n gwybodaeth i sicrhau bod sgiliau'n cael eu trosglwyddo.

### Cefnogi'r Cynllun Cyflawni Cenedlaethol ar gyfer Trafnidiaeth

Byddwn yn cefnogi'r Cynllun Cyflawni Cenedlaethol ar gyfer Trafnidiaeth. Byddwn yn nodi metrigau adrodd allweddol i fonitro cynnydd, datblygu pecyn adnoddau adrodd ar y cyd ar gyfer rheolwyr a sicrhau bod gennym y capasiti a'r gallu i gefnogi gweithio rhanbarthol ac ymgymryd â gwaith achos busnes yn fewnol.

### Datgarboneiddio rheilffyrdd

Gan weithio gyda Llywodraeth Cymru a'r Adran Drafnidiaeth, byddwn yn ceisio sicrhau cyllid drwy ddatblygu cynlluniau ac achosion busnes ar gyfer prosiectau i ddatgarboneiddio rhwydwaith Rheilffyrdd Cymru. Bydd yn cael ei ddarparu gan TrC neu Network Rail ac yn cyd-fynd â'n strategaeth cerbydau a blaenoriaethau Bwrdd Rheilffyrdd Cymru.

### Strategaeth fflyd bysiau

Byddwn yn cwblhau ein hasesiad o ofynion y fflyd bysiau ac yn parhau i gaffael bysiau heb allyriadau TrawsCymru.

### Strategaeth depo bysiau

Byddwn yn nodi lleoliadau strategol ar gyfer TrawsCymru a bysiau lleol ledled Cymru i gefnogi fflyd heb allyriadau yn y dyfodol. Byddwn yn bwrw ymlaen â datblygu safleoedd cychwynnol TrawsCymru.

### Datblygu hyb hydrogen

Byddwn yn datblygu prosiect Braenaru Bysiau Hydrogen Bae Abertawe sy'n gallu manteisio ar y cyfle posibl i ddefnyddio hydrogen a gynhyrchir yn lleol i bweru bysiau.

### Priffyrdd

Byddwn yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru i sefydlu trefniadau priodol i oruchwylio'r gofyniad Gweithredu a Chynnal a Chadw 30 mlynedd ar gyfer Adrannau 5 a 6 yr A465.

### Adroddiad monitro terfyn cyflymder diofyn cenedlaethol o 20mya ar ffyrdd cyfyngedig

Byddwn yn cyhoeddi'r adroddiad monitro cychwynnol ar gyfer terfynau cyflymder diofyn cenedlaethol o 20mya.

### Darparu mannau gwefru cerbydau trydan (EV) yn y sector cyhoeddus

Byddwn yn rheoli ac yn monitro cyllid grant Trawsnewid Cerbydau Allyriadau Isel Iawn (ULEV) Llywodraeth Cymru, gan sicrhau ein bod yn cefnogi'r safonau cydnabyddedig i hyrwyddo hygyrchedd. Byddwn yn sicrhau dull teg a chyfartal o flaenoriaethu cyllid grant i'r sector cyhoeddus er mwyn cyflawni nodau'r strategaeth. Byddwn yn creu Swyddfa Rheoli Rhaglenni i lywodraethu trefniadau darparu, gosod safonau a monitro cynnydd.

### Cefnogaeth seilwaith gwefru cerbydau trydan i'r sector cyhoeddus a'r sector preifat

Byddwn yn cyflwyno seminarau cyfnewid gwybodaeth gydag awdurdodau lleol, gan sicrhau eu bod yn cael cefnogaeth i ddeall cyfleoedd masnachol cerbydau trydan.

### Mynd i'r afael â bylchau yn rhwydwaith cerbydau trydan Cymru, drwy gefnogi darpariaeth y sector cyhoeddus neu gaffael uniongyrchol

Er mwyn mynd i'r afael â bylchau yn y rhwydwaith cerbydau trydan na all gweithredwyr masnachol fynd i'r afael â nhw, byddwn yn defnyddio popeth o gefnogaeth dechnegol i gyflawni o fewn prosiectau sector cyhoeddus cyfredol. Ar gyfer ein rhaglen cerbydau trydan mewn gorsafoedd rheilffordd, byddwn yn cwblhau unrhyw orsafoedd gweddilliol yng ngham 1 cerbydau trydan rheilffyrdd erbyn diwedd mis Mehefin 2024, ac yn cefnogi'r bwrdd cyflawni ar gyfer Cam 2 ar fodel masnachol hyd at ddiwedd mis Mawrth 2025.

### Datblygu cynnyrch newydd

Byddwn yn lansio dau gynnyrch newydd a fydd yn cynyddu refeniw, yn newid ymddygiad ac yn gwella profiad cwsmeriaid. Bydd y cynhyrchion hyn yn adeiladu ar gynnyrch rheilffyrdd traddodiadol a byddant yn cynnwys gwasanaethau digidol, partneriaethau masnachol, a masnacheiddio gwasanaethau presennol y mae TrC eisoes yn eu darparu. Bydd cynhyrchion yn seiliedig ar wybodaeth am gwsmeriaid, data marchnad a byddant yn cael eu datblygu yn unol ag egwyddorion gwyddor ymddygiad. Gallai'r rhain gynnwys cynnyrch trafnidiaeth traddodiadol neu gynnyrch newydd sbon ar gyfer trafnidiaeth gyhoeddus sy'n galluogi TrC i gyflawni ei amcanion.

### Strategaeth y Labordy Arloesi

Byddwn yn darparu'r labordy arloesi i gefnogi busnesau newydd ac entrepreneuriaid i helpu i gynyddu refeniw, newid ymddygiad, a gwella profiad cwsmeriaid.

# Partner

# Partneriaethau a chysylltiadau â'r llywodraeth a diwydiant

### Datblygu gallu ym maes trafnidiaeth

Byddwn yn parhau i ddatblygu ein galluoedd. Bydd ein ffocws penodol yn 2024/25 yn cynnwys gallu'r tîm i gynllunio trafnidiaeth i ddatblygu a darparu'r rhaglenni trafnidiaeth rhanbarthol. Byddwn yn rhoi cymorth i Lywodraeth Cymru a phartneriaid eraill fel awdurdodau lleol a Chyd-bwyllgorau Corfforedig drwy leoliadau a chyngor i drafnidiaeth ar amrywiaeth o weithgareddau.

### Gweithio mewn partneriaeth gymdeithasol

Byddwn yn parhau i weithio mewn partneriaeth gymdeithasol â'n cydweithwyr a phartneriaid undebau llafur ar draws amrywiaeth eang o weithgareddau i gyd-greu atebion i ddiwallu anghenion TrC, cydweithwyr, cwsmeriaid a Llywodraeth Cymru nawr ac yn y dyfodol.  Byddwn yn ymgysylltu â'n pobl ac yn eu grymuso i gyflawni'r nodau hyn.

### Rheilffordd Leol

Ar y cyd â Network Rail, byddwn yn lansio ail Bartneriaeth Rheilffordd Leol yng Ngorllewin Cymru. Bydd hyn yn caniatáu rheolwyr lleol i chwalu ffiniau rhwng swyddogaethau a sefydliadau i fod o fudd i gwsmeriaid.

### Rhaglen Gwelliannau Caerdydd Canolog

Byddwn yn gweithio'n agos gyda'n partneriaid yn y diwydiant i gwblhau dyluniadau rhagarweiniol ar gyfer gwelliannau mawr i orsaf Caerdydd Canolog. Byddwn wedyn yn cynhyrchu achos busnes llawn gwerth am arian i sicrhau cyllid ar gyfer dylunio a chyflawni manwl.

### Diwygio'r rheilffyrdd

Strwythurau'r diwydiant: Byddwn yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru, Tîm Pontio Great British Railways a Network Rail i ddylunio a datblygu'r strwythurau diwydiant mwyaf priodol i gefnogi'r gwaith o ddarparu gwasanaethau Cymru a'r Gororau yn y ffordd orau bosibl.

### Dylunio gwasanaeth rheilffyrdd Cymru'r dyfodol a strwythur rheoleiddiol a chytundebol Llinellau Craidd y Cymoedd

Byddwn yn dylunio ac yn argymell opsiynau contractiol a rheoleiddiol i wella effeithiolrwydd a chost-effeithiolrwydd gwasanaethau Rheoli Seilwaith ar rwydwaith Llinellau Craidd y Cymoedd a phob gwasanaeth trên Cymru a'r Gororau.

### Cyflawni'r cynllun Seilwaith Trafnidiaeth

Byddwn yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol i ddarparu cynlluniau seilwaith trafnidiaeth sydd wedi ymrwymo cyllid.

### Ymyriadau croesfannau rheilffordd i gefnogi gwelliannau i amserlenni

Byddwn yn gweithio'n agos gyda'r Adran Drafnidiaeth a Network Rail i ddatblygu rhaglen gadarn a strategaeth gyllido ar gyfer ymyriadau croesfannau rheilffordd i wella amserlen y rheilffordd.

## Diwygio'r rheilffyrdd: Rhaglen Cyfuno

Byddwn yn parhau i weithio gyda Network Rail, gan adeiladu ar yr ymrwymiadau cydweithio a'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth rydym eisoes wedi'u sefydlu. Byddwn hefyd yn parhau i archwilio cynigion sydd â'r potensial i reoli gorsafoedd a depos yn well ac felly gwell gwasanaeth i'n cwsmeriaid. Byddwn yn gwerthuso llwyddiant ein tîm Nawdd cyfunol ac yn penderfynu gyda Llywodraeth Cymru a ddylid parhau â'r dull peilot hwn.

## Crossrail Caerdydd

Byddwn yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru a Chyngor Dinas Caerdydd i ddarparu Crossrail Caerdydd a sicrhau ei fod wedi'i integreiddio â phrosiectau ehangach Caerdydd Canolog.

## Cynyddu potensial datblygu tir

Byddwn yn datblygu strategaeth ar gyfer manteisio ar gyfleoedd buddsoddi tir posibl i'n galluogi i weithredu mewn ffordd fwy ystwyth a manteisio ar gyfleoedd.

# Y gadwyn gyflenwi a phartneriaethau

## Deddf Caffael (2023 DU)

Byddwn yn gweithredu'r newidiadau sy'n ofynnol i fodloni Deddf Caffael newydd y DU (2023).

## Adolygu'r dull o amcangyfrif costau

Byddwn yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru ac arbenigwyr eraill i adolygu ein dull o amcangyfrif costau cyflawni a gweithredu ar draws gwasanaethau a phrosiectau seilwaith newydd.

## Dull caffael cynaliadwy

Byddwn yn adolygu ein dull o werthuso cynaliadwyedd a gwerth cymdeithasol mewn caffaeliadau gan ddefnyddio'r Fframwaith Themâu, Amcanion a Mesurau Cenedlaethol (2019). Bydd yr adolygiad hwn yn ystyried effeithiolrwydd y dull gweithredu a fabwysiadwyd ac yn gweithredu unrhyw argymhellion dilynol i wreiddio gwerth cymdeithasol yn ein prosesau caffael, gan gynnwys cyflawni ein rhwymedigaethau caffael o dan Ddeddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael (Cymru) 2023.

# Cwsmeriaid a diwylliant

## Dylunio profiad cwsmeriaid

### Gwella profiad cwsmeriaid

Byddwn yn datblygu cynnig trafnidiaeth aml-ddull clir i gwsmeriaid ar gyfer ein gwasanaethau a fydd yn nodi sut byddwn yn diwallu anghenion cwsmeriaid yn y dyfodol ar draws rheilffyrdd a bysiau, a sut byddwn yn darparu cynnyrch a gwasanaethau i fodloni'r gofynion hyn.

### Hygyrchedd a chynhwysiant

Byddwn yn cyflwyno cynnig hygyrchedd a chynhwysiant sy'n arwain y diwydiant, ar draws ein busnes ar gyfer ein holl gwsmeriaid. Byddwn yn sicrhau bod ein cydymffurfiaeth, ein polisi, ein seilwaith a'n harferion yn cyd-fynd â chefnogi ein cydweithwyr mewn rolau sy'n delio â chwsmeriaid, gan ymgysylltu â rhanddeiliaid a phaneli hygyrchedd a chynhwysiant.

## Profiad digidol cwsmeriaid

### Sianeli digidol TrC a Symudedd fel Gwasanaeth

Byddwn yn lansio ateb cynllunio teithio aml-ddull newydd TrC.

### Datblygu galluoedd data trafnidiaeth aml-ddull TrC

Byddwn yn datblygu ein technoleg data bysiau ymhellach i wella ein gallu i ddarparu atebion cynllunio teithio aml-ddull.

## Cyfleusterau i gwsmeriaid

### Cyfnewidfeydd

Byddwn yn datblygu glasbrint cyfnewidfa teithio aml-ddull i sicrhau cynnig cyson i gwsmeriaid. Byddwn hefyd yn gwreiddio model gweithredu ar gyfer ein cyfnewidfeydd sy'n cefnogi'r cynnig i gwsmeriaid ac yn darparu ethos sy'n canolbwyntio ar gwsmeriaid ar draws ein rhwydwaith.

### Cyfnewidfa Caerdydd

Byddwn yn cyflawni'r gwaith gosod mewnol yng Nghyfnewidfa Caerdydd ac yn dechrau gweithredu, wedi'i chysylltu â Gorsaf Caerdydd Canolog.

# Ymgysylltu â chwsmeriaid, cymunedau a rhanddeiliaid

### Strategaeth newid ymddygiad

Byddwn yn parhau i adolygu a diweddaru ein strategaeth newid ymddygiad i adlewyrchu'r amcanion polisi strategol a nodir yn niweddariad llythyr cylch gwaith 2.0 TrC.

### Newid ymddygiad o blaid teithio llesol

Byddwn yn adolygu ac yn diweddaru'r pecyn cymorth hyrwyddo a ddatblygwyd gan TrC yn 2023/24, gan gynnwys cefnogi'r ddyletswydd newydd i hyrwyddo teithio llesol fel ffordd o leihau neu gyfyngu ar lygredd aer.

### Datblygu brand

Byddwn yn gwreiddio ein fframwaith brand yn TrC i gefnogi TrC 2.0.

### Safonau'r Gymraeg

Byddwn yn sicrhau bod ein cyhoeddiadau trenau a gorsafoedd yn ddwyieithog, gan fanteisio ar y dechnoleg newydd ar ein trenau newydd sbon. Byddwn yn cyhoeddi ein hadroddiad cydymffurfio â'r Gymraeg.

### Cyfathrebu ac ymgysylltu

Byddwn yn datblygu ac yn cyflawni ein prif amcanion strategol cyfathrebu ac ymgysylltu ar draws ein sianeli materion cyhoeddus, cyfryngau a chyfryngau cymdeithasol i gefnogi ymgysylltu â'r holl randdeiliaid mewnol ac allanol.

### Strategaeth marchnata twf refeniw

Byddwn yn cyflawni ein strategaeth farchnata er mwyn sicrhau'r refeniw mwyaf posibl.

### Rheoli cysylltiadau cwsmeriaid (CRM) a datrysiad canolfan gyswllt

Byddwn yn datblygu ac yn integreiddio ein system CRM a datrysiad canolfan gyswllt ymhellach i sicrhau eu bod yn integreiddio ac yn darparu un llwyfan i gefnogi teithiau aml-ddull a chyswllt â chwsmeriaid.

### Canolfan gyswllt yn y dyfodol

Byddwn yn cyflawni ail flwyddyn Strategaeth a Chynllun pum mlynedd y Ganolfan Gyswllt yn y Dyfodol, gan ddatblygu ein hadnoddau a'n trefniadau cyswllt â chwsmeriaid a'n strategaeth fasnachol. Mae'r strategaeth hon yn ceisio datblygu canolfan gyswllt trafnidiaeth aml-ddull, ddwyieithog o ansawdd uchel i gefnogi TrC 2.0.

### Cwynion gan gwsmeriaid

Byddwn yn parhau i ganolbwyntio ar nifer y cysylltiadau â chwsmeriaid i sicrhau cynaliadwyedd a chadernid ac yn gwreiddio'r ymddygiadau o'n rhaglen Cwsmer yn Gyntaf, sydd wedi'i dylunio i leihau nifer y cwynion ar draws y sefydliad.

# Profiad manwerthu

### Bodlonrwydd cwsmeriaid

Rydyn ni'n gweithio i ddatblygu ein dealltwriaeth o fodlonrwydd cwsmeriaid ymhellach drwy ein sianeli digidol, manwerthu ac wyneb yn wyneb ein hunain, gyda'r bwriad o gael cipolwg go iawn ar brofiadau a boddhad ein cwsmeriaid gyda'n gwasanaethau. Bydd hyn yn ein galluogi i gyflawni gwelliannau a bydd yn cyfrannu at ein hadroddiadau Llais y Cwsmer ac adroddiadau byw wrth ymwneud â Chwsmeriaid. Mae hyn yn ceisio mynd i'r afael â'r problemau mae cwsmeriaid yn eu hwynebu gyda golwg ar wneud newidiadau i wella profiad cwsmeriaid.

### Lansio ein gwasanaeth Safonol plws ar ein fflyd Class 197

Byddwn yn lansio ein cynnig Safonol plws ar ein fflyd Class 197. Mae Safonol plws yn cynnig ardal dawelach a mwy cyfforddus gyda chynllun dwy sedd ac un, a bwrdd ar gyfer pob sedd. Mae seddi Safonol plws hefyd yn lletach ac yn mynd yn ôl.

### Partneriaethau rheilffyrdd cymunedol

Byddwn yn parhau i gefnogi ein partneriaethau rheilffyrdd cymunedol drwy eu hannog i hyrwyddo newid ymddygiad a darparu gwerth cymdeithasol.

### Ehangu'r cynllun Talu wrth Fynd

Yn dilyn lansiad llwyddiannus tocynnau Talu wrth Deithio ar drenau yn 2023/24, byddwn yn ehangu'r ardal dan sylw i gynnwys De-ddwyrain Cymru gyfan. Byddwn yn gweithio gyda chyflenwyr a gweithredwyr bysiau yn y rhanbarth i ddatblygu gweithredwr traws-fws, Tapio ar y Dechrau a'r Diwedd fel cam tuag at docynnau Talu wrth Deithio aml-ddull. Byddwn yn parhau i gefnogi'r cynllun Tapio ar y Dechrau a'r Diwedd 1bws ar draws nifer o weithredwyr bysiau yn y rhanbarth i gynyddu tocynnau Talu wrth Deithio ar draws y rhwydwaith bysiau.

### Tocynnau trafnidiaeth aml-ddull

Byddwn yn lansio llwyfan tocynnau digidol symudol trafnidiaeth aml-ddull a fydd yn cefnogi gwell prisiau, tocynnau ac integreiddio elfennau manwerthu, yn unol â'n strategaeth symleiddio prisiau i gael gwared ar gymhlethdod i'r cwsmer.

### Integreiddio bysiau TrawsCymru â'r rhwydwaith rheilffyrdd

Byddwn yn darparu cyfleoedd integredig ar gyfer cynllunio teithiau, tocynnau a manwerthu rhwng y rhwydwaith rheilffyrdd a bysiau TrawsCymru.

### Cefnogi'r gwaith o ddiwygio prisiau tocynnau ar fysiau

Byddwn yn cyflwyno'r gwaith o ddiwygio prisiau tocynnau ar draws rhwydwaith bysiau pellter hir TrawsCymru a'r rhwydweithiau bysiau lleol sydd wedi cael eu hailddylunio yng Ngogledd Cymru. Bydd hyn yn seiliedig ar ddull strwythuredig sy'n sicrhau gwell cysondeb ar draws rhwydweithiau bysiau. Bydd newidiadau i strwythurau tocynnau yn cael eu cefnogi gan fodel prisiau a fydd yn cael ei ddatblygu i gefnogi diwygio prisiau yn ehangach ar draws rhwydweithiau bysiau masnachfraint yn y dyfodol, lle cynigir y bydd polisi prisiau a thocynnau'n cael ei reoli'n ganolog.

### Lleihau costau gwerthu

Byddwn yn cyflawni ein strategaeth lleihau costau gwerthu i wella cost-effeithiolrwydd, gan symleiddio'r ffyrdd gall cwsmeriaid brynu tocynnau ar ein rhwydwaith, gan ddarparu gwerth am arian i ni ac i'n cwsmeriaid.

### Tocynnau trên ymlaen llaw

Byddwn yn parhau i ddatblygu a gwella tocynnau trên Ymlaen Llaw i wella gwerth am arian i'n cwsmeriaid.

### Twf tocynnau trên Dosbarth Cyntaf

Byddwn yn manteisio ar y twf mawr mewn refeniw tocynnau trên Dosbarth Cyntaf yn 2023/24 ac yn sbarduno twf cynyddol pellach drwy symleiddio ein set cynnyrch Dosbarth Cyntaf a chyflwyno opsiwn i uwchraddio'n ddigidol.

### Prisio tanysgrifiadau ac ehangu teyrngarwch digidol

Byddwn yn ehangu ein cysyniad o brisiau tanysgrifiadau a theyrngarwch digidol i gynulleidfaoedd ehangach.

### Strategaeth gweithrediadau cwsmeriaid

Byddwn yn darparu strategaeth porth sy'n cyflawni ein dyheadau o ran diogelu refeniw a phrofiad cwsmeriaid. Byddwn yn darparu cynnig wedi'i ailddiffinio ar gyfer ein swyddfeydd tocynnau a fydd yn gwella profiad y cwsmer.

### Diogelu ein refeniw

Byddwn yn cyflawni strategaeth diogelu refeniw a fydd yn cynnwys cynyddu cyfraddau sganio tocynnau i ddiogelu refeniw tocynnau, atal teithio heb docyn a lleihau hawliadau twyllodrus am ad-daliadau. Bydd hyn yn lliniaru'r cynnydd mewn twyll digidol, a ffurfiau eraill o dwyll manwerthu a thocynnau. Byddwn yn sicrhau bod ymgyrchoedd diogelu refeniw yn cael eu harwain gan ddata ac yn cael eu gyrru gan nodi pryd a ble mae lefelau uchel o deithio heb docyn ar draws ein rhwydwaith. Byddwn yn datblygu fframwaith sy'n sicrhau bod pobl sy'n osgoi talu am docyn yn cael eu hatal yn deg ac yn gymesur.

### Ehangu tocynnau cosb

Byddwn yn ehangu cwmpas daearyddol tocynnau cosb ar draws llwybrau allweddol, er mwyn diogelu refeniw'n well ac annog pobl i brynu tocynnau ymlaen llaw cyn teithio.

# Datblygu ein pobl a'n sefydliad

### Cynllun gwrth-hiliaeth

Byddwn yn rhoi camau gweithredu ein cynllun gwrth-hiliaeth a ddatblygwyd yn ddiweddar ar waith. Mae'r cynllun yn cyd-fynd ag amcan Llywodraeth Cymru o Gymru wrth-hiliol erbyn 2030.

### Cynllun pobl

Byddwn yn datblygu Cynllun Pobl i sicrhau bod ein diwylliant yn cyd-fynd â'n cylch gwaith TrC 2.0 gan ganolbwyntio ar ein cwsmeriaid a'n dyheadau teithio aml-ddull.

### Cynllun Cydraddoldeb Strategol

Byddwn yn datblygu'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol ar gyfer 2024–28 yn unol â Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus. Byddwn yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru i sicrhau ei bod yn cyd-fynd â'r Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Trafnidiaeth sydd wrthi'n cael ei ddatblygu.

### Academi TrC 2.0

Byddwn yn adeiladu ar lansiad llwyddiannus ein rhaglen datblygu arweinyddiaeth drwy fuddsoddi yn natblygiad ein cydweithwyr. Byddwn yn parhau i ddatblygu arweinwyr y dyfodol ar draws dulliau teithio a fydd yn hyrwyddo egwyddorion TrC 2.0.

### Iechyd a lles

Byddwn yn canolbwyntio ar iechyd a lles corfforol a meddyliol drwy gyflawni ein Cynllun Iechyd a Lles. Bydd hyn yn cynnwys rhaglen o ddigwyddiadau wedi'u cynllunio sy'n hybu iechyd a lles ac yn annog camau i wella ffordd o fyw a fydd yn gynhwysol ac yn hygyrch i bob cydweithiwr. Byddwn yn cefnogi ein Swyddogion Cymorth Cyntaf Iechyd Meddwl i ymgysylltu â chydweithwyr sy'n dioddef o gyflyrau iechyd meddwl a straen.

### Adnoddau gweithredol

Byddwn yn darparu cynlluniau adnoddau gweithredol i sicrhau'r cymysgedd cywir o hyblygrwydd a'r gallu i gyflawni, gan gynnal ymateb ystwyth a sicrhau'r defnydd gorau posibl o adnoddau.

### Recriwtio

Byddwn yn parhau i wella ein dull recriwtio, gan gefnogi ac annog cymysgedd amrywiol o bobl i wneud cais am swyddi gyda ni.

### Partneriaethau ym mhob rhan o'r diwydiant

Byddwn yn gweithio gydag amrywiaeth o bartneriaid yn y diwydiant i gyflawni ein hamcanion, gan gynnwys y rhai sy'n ymwneud â chydraddoldeb, Menywod mewn Trafnidiaeth a recriwtio pobl ifanc a phrentisiaid.

### Adolygiadau Blynyddol y Bwrdd Talent a chynllunio ar gyfer olyniaeth

Byddwn yn cynnal Byrddau Pobl blynyddol gyda'r Tîm Arwain Gweithredol a Bwrdd TrC. Byddwn yn cynnal ein hymrwymiad i'n hamcanion cydraddoldeb strategol.

### Dyluniad y sefydliad

Byddwn yn adolygu ein strwythur sefydliadol er mwyn sicrhau bod ein model gweithredu newydd yn cael ei gyflawni yn y ffordd orau bosibl. Byddwn yn canolbwyntio ar weithio'n agosach mewn partneriaeth a chydweithio â Llywodraeth Cymru i gyflawni cylch gwaith cynyddol TrC a TrC 2.0. Byddwn yn parhau i gefnogi'r rhaglen secondiadau i hyrwyddo cydweithio a diwylliant sefydliadol ar y cyd rhwng TrC a Llywodraeth Cymru.

# Adeiladu a chynnal

# Rheoli seilwaith a chyfleusterau

### Rheoli a chynnal a chadw asedau'n rhagweithiol

Byddwn yn canolbwyntio ar ddefnyddio data perfformiad asedau presennol a hanesyddol.  Bydd hyn yn llywio gweithgareddau cynnal a chadw ac adnewyddu gan arwain at fwy o ddibynadwyedd seilwaith. Byddwn yn nodi asedau seilwaith hanfodol ar gyfer eu cynnal a'u cadw'n well.

### Datblygu manwerthu

Byddwn yn ailddatblygu ac yn adnewyddu gofod yng ngorsaf drenau Pontypridd i greu mannau masnachol.

### Cynllun Ymaddasu i'r Hinsawdd a Chydnerthedd

Byddwn yn ymgorffori gofynion ymaddasu i'r newid yn yr hinsawdd a chydnerthedd yn y manylebau ar gyfer ein gwaith adnewyddu ar Linellau Craidd y Cymoedd.

### Strategaeth Masnacheiddio

Byddwn yn datblygu ac yn gweithredu cynllun cyflawni ar gyfer y strategaeth, sy'n gosod amcanion clir ar gyfer cyfleoedd cynhyrchu refeniw ar ein rhwydwaith gan fanteisio i'r eithaf ar gyfleoedd masnachol, gan gynnwys parcio ceir, arlwyo premiwm, hysbysebu, storio beiciau, caffis beicio a datblygiadau arloesol eraill.  Byddwn yn datblygu dull cyfannol o fasnacheiddio'r rhwydwaith bysiau. Byddwn yn datblygu Strategaeth Partneriaethau Brand sy'n amlinellu'r cyfleoedd i greu gwerth drwy weithio mewn partneriaeth â brandiau sefydledig.

### Optimeiddio rheoli portffolio

Byddwn yn cyfuno ein contractau rheoli portffolio ac asiantaeth tir i sicrhau gwell gwerth am arian.

### Ffeibr TrC:

Byddwn yn cyflawni cynllun busnes Masnacheiddio Ffeibr Llinellau Craidd y Cymoedd i gynhyrchu Elw sylweddol ar Fuddsoddiad o fuddsoddiad Llywodraeth Cymru yn Llinellau Craidd y Cymoedd, gan leihau'r ddibyniaeth ar gymhorthdal.

# Seilwaith ac asedau darparu gwasanaeth

### Depos Llinellau Craidd y Cymoedd

Byddwn yn cwblhau'r gwaith depo yn unol â'r rhaglen y cytunwyd arni.

### Argaeledd a dibynadwyedd fflydoedd

Byddwn yn gwella argaeledd a dibynadwyedd ein fflydoedd drwy gynyddu ein gallu cynnal a chadw a chyflawni'r ddarpariaeth cadw a gynlluniwyd, er mwyn bodloni gofynion yr amserlenni. Bydd hyn yn cynnwys rhoi Depo Cynnal a Chadw Trenau Ffynnon Taf ar waith.

### Derbyn fflydoedd trenau newydd yn barod ar gyfer ymuno â'r gwasanaeth ar y rhwydwaith

Byddwn yn derbyn y fflydoedd trenau newydd i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r fanyleb dechnegol, yr holl gymalau contractiol, a'r holl gyfreithiau a safonau perthnasol.

### Cynlluniau gwaith seilwaith cerbydau

Byddwn yn cwblhau'r holl gynlluniau gwaith seilwaith cerbydau i gefnogi'r gwaith o gyflawni'r rhaglen fflyd newydd.

### Diogelu ein hasedau

Byddwn yn datblygu strategaeth diogelu asedau glir ac ystwyth i ddiogelu ein buddsoddiadau a'n gweithrediadau a darparu mwy o werth am arian.

### Data cyfrif teithwyr yn awtomatig

Byddwn yn gwreiddio data cyfrif teithwyr awtomatig yn y sefydliad ac yn datblygu systemau a phrosesau i awtomeiddio'r defnydd o'r data hwn. Byddwn yn sicrhau ei fod yn cael ei ddefnyddio'n briodol ac yn cael ei gadw'n ddiogel.

# Datblygu seilwaith

**Comisiynu seilwaith Llinellau Craidd y Cymoedd**

Byddwn yn cyflawni gwaith Seilwaith Trawsnewid Llinellau Craidd y Cymoedd yn unol â'r rhaglen y cytunwyd arni. Bydd hyn yn cynnwys digwyddiadau trydaneiddio ar reilffyrdd Treherbert, Aberdâr a Merthyr.

**Gwella Glynebwy**

Byddwn yn parhau i roi cymorth fel cynghorwyr technegol y diwydiant ar gyfer cyflawni'r cam nesaf o waith gwella'r rheilffyrdd yng Nglynebwy.

# Cyflawni ar gyfer cwsmeriaid

# Darparu gwasanaethau

### Cadw ein cwsmeriaid, a'n gilydd, yn ddiogel

Byddwn yn adolygu pob asesiad risg rhyngwyneb platfform a thrên. Byddwn yn datblygu cynllun i gyflawni gwelliannau neu ddarparu mesurau lliniaru boddhaol gyda'n partneriaid.

### Diogelwch a gwarchodaeth

Byddwn yn datblygu ac yn gweithredu rhaglen diogelwch a gwarchodaeth sy'n canolbwyntio ar gwsmeriaid, gan sicrhau ein bod yn ystyried ymddygiad, anghenion ac adeiladau cwsmeriaid er mwyn gwella diogelwch ar ein rhwydwaith. Byddwn yn gweithio gyda'n partneriaid i ddeall pam mae pobl yn ymddwyn yn wrthgymdeithasol ac yn tresmasu, i ddatblygu strategaethau lliniaru.

### Darparu rhwydwaith TrawsCymru

Byddwn yn caffael gwasanaeth bws newydd T5 TrawsCymru.

### Depos TrawsCymru

Byddwn yn darparu nawdd prosiect ar gyfer prosiectau depo bysiau TrawsCymru i sicrhau bod prosiectau'n cyflawni yn erbyn y cylch gwaith a'r amlen gyllido.

### Arwain y ffrwd waith contractau yn y rhaglen masnachfreinio bysiau

Byddwn yn defnyddio ein sgiliau a'n gwybodaeth o'r sector rheilffyrdd a chontractau bysiau TrawsCymru i gefnogi'r gwaith o ddylunio a datblygu contractau masnachfraint bysiau'r dyfodol ac i reoli'r masnachfreintiau hynny ar ôl eu gosod.

### Rheoli grantiau Teithio Llesol a TrawsCymru

Byddwn yn adolygu ac yn gwella ein system rheoli grantiau bysiau sy'n cyd-fynd ag adolygiad Llywodraeth Cymru o reoli grantiau.

### Cyflawni ein hamserlen rheilffyrdd

Byddwn yn cyflawni amcanion ein Cynllun Gwella Perfformiad 2024/25 ac yn adnewyddu ein cytundeb teiran gyda Network Rail ac Amey Infrastructure Wales. Byddwn yn gweithio gyda'n gilydd i ddarparu'r gwasanaeth gorau posibl i'n cwsmeriaid.

### Cyflawni'r gwaith o wneud y gorau o'n hamserlenni

Byddwn yn gwneud y gorau o'n hamserlenni gyda threnau newydd ar Linellau Craidd y Cymoedd.

### Gwneud y gorau o'n capasiti teithwyr

Byddwn yn clirio pob llwybr ar gyfer ein trenau Class 197 er mwyn galluogi trenau hyd at chwe cherbyd pan fydd hynny'n cael ei gynllunio.

### Gwasanaethau bws yn lle'r trenau

Byddwn yn adolygu ac yn gwella'r ffordd mae gwasanaethau bws yn lle trenau yn cael eu darparu a'u gwerth am arian, er mwyn sicrhau bod ein cwsmeriaid yn gallu bod yn hyderus eu bod yn gwneud eu taith yn unol â'r cynllun os bydd rhywbeth yn tarfu ar y rhwydwaith rheilffyrdd.

### Trawsnewid Llinellau Craidd y Cymoedd

Dull anfon trên: Byddwn yn gweithredu'r dull y cytunwyd arno o anfon trenau ar y gwasanaethau Metro sy'n rhedeg ar Linellau Craidd y Cymoedd.

### Rheoli'r gwaith o ddarparu gwasanaethau rheilffyrdd a Rheoli Seilwaith sy'n cydymffurfio

Byddwn yn cydweithio ym mhob rhan o TrC i ddatblygu'r berthynas waith ag Amey Infrastructure Wales, gan ddiffinio unrhyw amrywiadau i gontractau sy'n deillio o hynny i gefnogi'r gwaith o ddarparu gwasanaethau rheoli seilwaith yn effeithiol. Byddwn yn sicrhau bod Rheilffyrdd TrC Cyfyngedig yn cyflawni'r rhwymedigaethau a'r ymrwymiadau sydd yn ei gontract gwasanaethau rheilffyrdd.

# Ansawdd gwasanaeth i gwsmeriaid

### Gwybodaeth i Gwsmeriaid

Byddwn yn creu strategaeth gwybodaeth teithio aml-ddull a fydd yn gwella'r broses o ddarparu gwybodaeth i'n cwsmeriaid, gan ddefnyddio dull gweithredu diogel drwy ddylunio ar gyfer data pobl a dylunio hygyrchedd o'r dechrau. Bydd defnyddwyr yn gallu cael gafael arno cyn, yn ystod ac ar ôl eu taith. Byddwn yn defnyddio adborth cwsmeriaid i wella gwybodaeth am drafnidiaeth. Mae hyn yn cynnwys cyhoeddiadau ar drenau ar fflydoedd, gorsafoedd a sianeli ar-lein nawr ac yn y dyfodol. Bydd hyn yn ein galluogi i ddarparu gwasanaeth cyson i'n cwsmeriaid, gan ystyried y rheini a allai fod wedi'u heithrio'n ddigidol.

### Glasbrint ar gyfer ein gorsafoedd

Cefnogi newid dulliau teithio ar draws ein rhwydwaith: Byddwn yn darparu cyfres gyson o fesurau perfformiad gweithredol ac ansawdd gwasanaeth ar draws pob dull teithio a chyfleusterau mae TrC yn berchen arnynt, ac yn eu gweithredu. Bydd hyn yn galluogi TrC i sicrhau profiad rhagorol i gwsmeriaid a gwelliannau parhaus drwy ddadansoddi data a thueddiadau.

# Cynllunio ac adrodd ar y gwasanaeth

### Gwasanaeth rheilffyrdd gwell a gwydn drwy adolygu'n barhaus a chadarnhau'r gwasanaethau i'w darparu

Byddwn yn adolygu gwelliannau arfaethedig i amserlenni yn erbyn y galw presennol gan gwsmeriaid, y fflyd newydd sydd ar gael, a'r seilwaith, er mwyn dylunio'r gwasanaethau rheilffyrdd gorau posibl ar gyfer ein cwsmeriaid.

# Gwerth am arian

## Llywodraethu a rheolaeth ariannol

### Adrodd ariannol, rheolaethau a llywodraethu mewnol

Byddwn yn darparu adroddiadau ariannol amserol ac yn gwella gwybodaeth, rheolaethau a llywodraethu yn barhaus er mwyn darparu penderfyniadau gwerth uchel, tryloywder gwybodaeth a gwerth am arian.

### Llywodraethiant corfforaethol

Bydd TrC yn datblygu ei bolisïau a'i strategaethau mewn perthynas â fframwaith llywodraethu i adlewyrchu cylch gwaith datblygol y sefydliad.

### Amgylchedd Rheoli Mewnol Gwell

Byddwn yn gweithio gyda rhanddeiliaid allweddol i greu amgylchedd rheolaethau mewnol sy'n cefnogi'r holl waith adrodd allweddol, gan adlewyrchu sefydliad TrC sy'n esblygu.

### Datblygu a chynrychioli'r Bwrdd

Byddwn yn sicrhau bod gan y Bwrdd ddigon o gynrychiolaeth, sgiliau a phrofiad traws-sector i gyflawni cylch gwaith cynyddol TrC sy'n cyd-fynd ag amcanion TrC 2.0.

## Cynllunio corfforaethol a busnes

### Cynllunio busnes a dangosyddion perfformiad allweddol

Byddwn yn cynhyrchu cynllun busnes ac adroddiad blynyddol sy'n adlewyrchu cylch gwaith TrC ac yn sicrhau gwelliant parhaus yn unol â'r dangosyddion perfformiad allweddol a gyhoeddwyd.

# Gwasanaethau TG a digidol

### Datblygu gwasanaethau TG a digidol

Byddwn yn cyflawni prosiectau TG allweddol yn y sefydliad gan ddefnyddio egwyddorion dylunio gwasanaeth diweddaraf Llywodraeth Cymru, gan gynnwys seiberddiogelwch gwell sy'n bodloni ein gofynion o dan Reoliadau Rhwydweithiau a Systemau Gwybodaeth 2018. Bydd ein prosiectau yn sicrhau bod ein gwasanaethau a'n seilwaith digidol yn ddiogel a bod ein cydweithwyr yn gymwys i'w gweithredu. Byddant hefyd yn canolbwyntio ar ddatblygu ein gwerth i gwsmeriaid er mwyn bodloni disgwyliadau. Byddwn hefyd yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru i ddiffinio a gweithredu model rhannu gwybodaeth a chydweithio.

# Rheoli contractau a masnach

### Cyfleoedd Canolfan Ragoriaeth Fyd-eang ar gyfer Rheilffyrdd

Byddwn yn gweithio gyda'r Ganolfan Ragoriaeth Fyd-eang ar gyfer Rheilffyrdd i ddatblygu llif o gyfleoedd arloesi. Byddwn yn ceisio defnyddio cyfleusterau o'r radd flaenaf yng Nghymru i helpu i gyflawni ein cynlluniau.

### Strategaeth Datgarboneiddio Cerbydau

Ar ôl cymeradwyo'r Strategaeth Datgarboneiddio Cerbydau, byddwn yn lansio rhaglen i ddechrau diwydrwydd dyladwy a dadansoddiad manwl, gan gynnwys ymchwil i dechnoleg tyniant cerbydau yn y dyfodol a'i amserlenni argaeledd.

# Gwasanaethau galluogi

# Diogelwch, cynaliadwyedd a rheoli risg

### Yr argyfwng hinsawdd

Byddwn yn parhau i gyflawni ein rhaglenni i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd, gan gynnwys cyhoeddi strategaeth effeithlonrwydd ynni i gynllunio gostyngiad yn ein hallyriadau carbon. Byddwn yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru i asesu manteision allyriadau carbon eu prosiectau neu eu rhaglenni.

### Cyflawni ein hymrwymiadau o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Byddwn yn cyflawni ein hymrwymiadau fel corff sydd wedi'i enwi ar Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Byddwn yn gweithio gyda'n partneriaid undebau llafur i ddatblygu ein hamcanion lles a'n cynlluniau i'w cyflawni yn unol â'n hymrwymiadau o dan Ddeddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael (Cymru) 2023. Byddwn yn paratoi i gyhoeddi'r amcanion hyn yn 2025/26 ac yn adrodd yn flynyddol ar ein cynnydd. Drwy hyfforddiant a chyfathrebu, byddwn yn gwella dealltwriaeth o'r nodau lles a'r ffyrdd o weithio ar draws TrC, ein cadwyn gyflenwi a'n rhanddeiliaid, ac ymgysylltu â nhw.

### Effaith amgylcheddol

Byddwn yn parhau i ddarparu ein rhaglenni i leihau effaith TrC ar yr amgylchedd, gan adeiladu ar ein cydymffurfiad amgylcheddol â'r Ddraig Werdd. Byddwn yn parhau i leihau'r defnydd o blastig untro drwy ein rheolaeth uniongyrchol a thrwy ddylanwadu ar ein partneriaid a'n cadwyn gyflenwi.  Byddwn yn datblygu proses rheoli gwastraff sy'n bodloni'r gofynion cyfreithiol newydd ac sy'n cefnogi'r hierarchaeth gwastraff.

### Diogelwch drwy ddylunio

Byddwn yn sicrhau bod prosiectau mawr yn cael eu rheoli i annog meddylfryd diogelwch drwy ddylunio, a fydd yn lleihau cymhlethdod ac yn galluogi arloesedd ac effeithlonrwydd.

### Rheoli argyfwng yn integredig

Byddwn yn datblygu system Rheoli Argyfwng Integredig ar draws yr holl ddulliau trafnidiaeth rydyn ni'n eu gweithredu, a byddwn yn parhau i wella ein dealltwriaeth o effaith digwyddiadau eithafol yn yr hinsawdd nawr ac yn y dyfodol ar ein rhwydweithiau, ein cyfleusterau a phobl Cymru i wneud penderfyniadau ar gyfer y tymor hir.

### Datblygu cyfleoedd

Rydyn ni wedi gweithio i ddatblygu ac integreiddio ein rhaglen rheoli risg menter (ERM) drwy'r model tair llinell amddiffyn. Gellir rheoli risgiau a materion yn effeithlon a, lle bo angen, eu huwchgyfeirio o berchennog y risg i lefel y Bwrdd a Llywodraeth Cymru yn gyflym er mwyn eu gwneud yn ymwybodol a gwneud penderfyniadau drwy'r Prif Swyddog Risg a'r Tîm Risg. Mae ein datganiadau parodrwydd i dderbyn risg a bennwyd gan y Bwrdd yn ein hannog i reoli risgiau sefydliadol a lliniaru problemau. Gan adeiladu ar ein proses, llywodraethu a diwylliant ERM sefydledig, byddwn yn mynd ati i nodi a gwireddu rhagor o gyfleoedd ar gyfer effeithlonrwydd a gwella.

### Strategaeth adfer tir

Byddwn yn datblygu ac yn gweithredu dull effeithiol o adfer tir TrC (gan gynnwys fframwaith gwneud penderfyniadau) yn dilyn unrhyw feddiannu anghyfreithlon, gan ystyried ffactorau fel brys a gwerth am arian.